
CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE



# ADOLYGIAD BLWYDDYN

2020–2021

# CANOLFAN GELFYDDYDAU GENEDLAETHOL CYMRU



Rydyn ni'n tanio'r dychymyg drwy greu ein cynyrchiadau theatr, gwyliau a phrofiadau digidol ein hunain – yn ogystal â churadu cynyrchiadau teithiol arobryn o'r radd flaenaf – o sioeau cerdd a chomedi i ddawns a chabaret.

Rydyn ni'n ennyn angerdd dros y celfyddydau gyda chyfleoedd dysgu sy'n newid bywydau ac yn rhoi cyfleoedd i bobl ddisgleirio.

Rydyn ni'n meithrin doniau newydd gyda'n gweithiau ffres, pryfoclyd a phoblogaidd, wedi eu gwreiddio yn niwylliant Cymru. Rydyn ni hefyd yn elusen, yn cydweithio â sefydliadau, cymunedau a phobl ifanc i sicrhau bod y celfyddydau ar gael i bawb.

Bob blwyddyn rydyn ni'n denu dros 1.6 miliwn o ymwelwyr ac yn generadu £70 miliwn i fusnesau lleol.

**NI YW CANOLFAN MILENIWM CYMRU.**
**TANWYDD I'R DYCHYMYG.**

# 107,101

## O BOBL WEDI GWYLIO GŴYL 2021

# 17,445

## O YMHOLIADAU CWSMERIAID WEDI'U DATRYS DRWY E-BOST

# 7 ARDDANGOSFA NEWYDD

## A WELWYD DRWY EIN FFENESTRI

# 2,962

## O BOBL IFANC WEDI CYMRYD RHAN MEWN GWEITHDAI RHITHWIR

# 105 O BOBL

## WEDI DOD I BICNIC CYMUNEDOL CARNIFAL TREBIWT

# PETER SWINBURN

Cadeirydd Canolfan Mileniwm Cymru



Roedd hon yn flwyddyn unigryw, ac rydyn ni i gyd yn gobeithio y bydd yn aros felly. Oherwydd pandemig y Coronafeirws, roedden ni wedi cau ein drysau ar 17 Mawrth 2020 a daeth pob cyfarfod personol i ben am dros flwyddyn. Roedden ni mewn tiriogaeth anghyfarwydd ond roedden ni'n deall bod rhaid i ni wneud penderfyniadau pendant a gweithredu'n gyflym i lywio ein ffordd drwy'r cyfnod hynod heriol ac anrhagweladwy yma.

Gyda chanslo pob sioe a digwyddiad, fe gollon ni 85% o'n refeniw dros nos, felly erbyn yr haf, fe fu'n rhaid i ni leihau maint y sefydliad er mwyn sicrhau bod Canolfan Mileniwm Cymru yn goroesi. Gyda chyllid o Gronfa Adferiad Diwylliannol Llywodraeth Cymru, fe lwyddon ni i gadw rhai aelodau o'r tîm oedd yn hanfodol i'r busnes, ond roedden ni'n dal i fod o dan bwysau sylweddol.

Yn ystod y cyfnod yma, roedd angen tanio ein dychymyg yn fwy nag erioed, ac fe wnaeth y staff oedd yn weddill bob ymdrech i sicrhau bod ein gwaith elusennol a chymunedol craidd yn parhau. Roedd hyn ar lefel is, ond fe lwyddon ni i gadw mewn cysylltiad â'r rhai oedd ein hangen fwyaf. Fe fu'r gwaith yma'n bosib diolch i gefnogaeth hael gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ymddiriedolaethau a sefydliadau, aelodau corfforaethol, rhoddwyr unigol, ein haelodau a'r cyhoedd.

Diolch o galon i chi i gyd, i dîm Canolfan Mileniwm Cymru ddoe a heddiw, i'r Bwrdd ac i'n cefnogwyr: hebddoch chi, fydden ni ddim wedi goroesi.

# MATHEW MILSOM

Rheolwr Gyfarwyddwr



Caewyd ein drysau ym mis Mawrth ac fe fu'n rhaid i ni gymryd camau brys i sicrhau y bydden ni'n goroesi yn y dyfodol drwy gyfnod parhaus o ansicrwydd. Fe lwyddon ni i gadw fflam creadigrwydd yn fyw drwy gefnogi ein partneriaid cymunedol, fe symudon ni'n gwaith ymgysylltu creadigol ar-lein a chefnogi ein gorsaf radio sy'n cael ei harwain gan bobl ifanc, Radio Platfform, i barhau i ddarlledu.

Fe wnaethon ni hefyd gymryd amser i ystyried ac ailffocysu ein strategaeth ar gyfer y dyfodol, gan osod creadigrwydd a hygyrchedd wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud er mwyn caniatáu i ni ffynnu a llwyddo pan fydden ni'n gallu ailagor. Rydyn ni'n dal i fod yn uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, ac mae ganddon ni gynlluniau cyfalaf a gwella busnes cyffrous ar waith fel y gallwn ysbrydoli'r genedl am genedlaethau i ddod.

Hoffwn ddiolch i Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru am eu cefnogaeth ariannol hanfodol yn ystod y cyfnod. Hoffwn ddiolch o galon hefyd i'n staff, ein gwirfoddolwyr, ein hymddiriedolwyr, ein partneriaid a'n cefnogwyr gwych am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad diflino.

# GWEITHIO GYDA'R GYMUNED

**Gyda'n hadeilad ar gau a chyfyngiadau yn eu lle, fe achubon ni ar y cyfle i wneud pethau'n wahanol. Daeth ein ffenestri helaeth yn orielau dros dro i waith celf anhygoel gan ein cyfeillion a'n cymdogion.**




Ym mis Awst, fe ddangoson ni arddangosfa gelf oedd wedi'i chynhyrchu gan grŵp o artistiaid ifanc fel rhan o gystadleuaeth gan Mycelium, prosiect oedd yn cael ei redeg gan National Theatre Wales. Ym mis Rhagfyr, fe ddangoson ni furlun gan yr artist o Drebiwt, Kyle Legall.

Ym mis Ionawr, fe ddangoson ni arddangosfa o ffotograffiaeth gan bobl ifanc Dduon, Asiaidd ac ethnig amrywiol o Gaerdydd a'r cyffiniau, mewn prosiect a grëwyd gan Yusuf Ismail, un o gyd-sylfaenwyr Unify.

### DATHLU GYDA'N GILYDD

Fe wnaethon ni barhau i gynnal digwyddiadau fel y gallen ni gadw mewn cysylltiad â'r gymuned, er bod hynny ar raddfa lai nag o'r blaen. Ddydd Sul 20 Medi, cynhaliwyd Picnic Cymunedol Carnifal Trebiwt gyda Chymdeithas Celfyddydau a Diwylliant Trebiwt, lle bu cant o bobl yn gwylio perfformiadau gyda bwyd Caribïaidd blasus gan Bwyd Da Caerdydd.

Drwy gydol mis Hydref, fe wnaethon ni nodi Mis Hanes Pobl Dduon gyda Hanes Pobl Dduon 365 ac, ar 14 Tachwedd, fe gynhalion ni ddiwrnod o ddathliadau Diwali o dan arweiniad ein cyfeillion yn Tamil Sangham Cymru a greodd Rangoli hardd yn ein cyntedd.

**"EIN NOD OEDD RHOI CYFLE I OEDOLION IFANC O'R DDINAS DDYSGU A DOD I GYSYLLTIAD Â'R CELFYDDYDAU CREADIGOL, BETH BYNNAG EU CEFNDIR. RYDYN NI'N GOBEITHIO ADEILADU AR HYN A'I WNEUD AR RADDFA FWY YN Y DYFODOL." YUSUF ISMAIL**







# CEFNOGI POBL IFANC YN YSTOD Y CYFNOD CLO

“MAE’R CWRS YMA WEDI BOD YN GYFLE GWYCH I FI GWRDD AG ERAILL A DEFNYDDIO FY NGHREADIGRWYDD YN LLAWN ER MWYN CREU STORI.” LACEY

**Er mwyn parhau i gefnogi creadigrwydd pobl ifanc, fe newidion ni’n rhaglenni dysgu creadigol i gael eu cynnal o bell. O ganlyniad, fe ymgysyllton ni â bron i 3,000 o bobl, o ardaloedd a chefndiroedd nad ydyn ni wedi llwyddo i’w cyrraedd o’r blaen.**

## MYND Â GWAITH CYNHYRCHU AR-LEIN

Yn ystod y cyfnod clo, fe ddarparon ni fwy o offer cludadwy fel y gallai’r bobl ifanc sy’n rhedeg Radio Platfform, ein gorsaf radio sy’n cael ei harwain gan bobl ifanc, ddarlledu o’u hystafelloedd gwely, eu cartrefi teuluol a hyd yn oed o garafán. Fe fu’r tîm yn archwilio ffyrdd newydd o gyrraedd eu cymunedau drwy gynhyrchu cymysgedd o sioeau presennol a gwaith newydd, a rhoi eu sgiliau trefnu a datrys problemau ar waith wrth wneud hynny.

Erbyn mis Medi, roedden ni wedi symud ein cwrs hyfforddi radio ar-lein, gyda chyfranogwyr yn gallu ennill achrediad Agored Cymru am y sgiliau roedden nhw’n eu dysgu o bell.

## YMAGWEDD NEWYDD

Ym mis Medi, fe wnaethon ni hefyd ddechrau peilota rhaglen Llais Creadigol, sydd â’r nod o roi’r gofod a’r cymorth trochi i bobl ifanc archwilio eu creadigrwydd mewn gwahanol ffurfiau ar gelfyddyd.

Roedd y cynlluniau peilot wedi’u hanelu at bobl ifanc 16–25 oed, ac roedden nhw’n cynnwys gwneud ffilmiau, cynhyrchu radio, a gwneud printiau a chylchgronau, a’r cyfan drwy lens adrodd straeon. Roedd y cyrsiau’n cael eu darparu gan artistiaid, dylunwyr a gwneuthurwyr ffilm, gyda mentoriaid i gefnogi cyfranogwyr drwy gydol y cyrsiau.

Gan ddefnyddio’r adborth o’r sesiynau peilot yma, fe gynhalion ni gyrsiau pellach ym mis Chwefror a mis Mawrth, yn cwmpasu ysgrifennu creadigol, sgrin a ffilm, a chynhyrchu sain. I lawer o’r 86 o bobl ifanc a gymerodd ran, dyma’r tro cyntaf iddyn nhw ymgysylltu â ni.

Rydyn ni wedi penderfynu parhau â chyrsiau digidol ochr yn ochr â chyrsiau wyneb yn wyneb er mwyn ein helpu i gyrraedd ystod ehangach o bobl ifanc.

## SING PROUD CYMRU

Parhaodd ein côr ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i gwrdd ar-lein, gyda grŵp craidd o tua 20 o bobl ifanc yn cwrdd yn wythnosol ar gyfer sesiynau byrrach.

Roedd llawer o aelodau’n gweld y cyfnod clo’n arbennig o heriol gan fod yr agwedd gymdeithasol yn rhan mor bwysig o’u sesiynau, ond roedden nhw i gyd wir yn gwerthfawrogi cael parhau’r cysylltiad gyda phobl eraill sy’n deall eu hamgylchiadau unigryw nhw.

Mae’r côr wedi bod yn fan cychwyn gwych i lawer, o ran darganfod angerdd go iawn am gerddoriaeth ac o ran rhoi’r hyder iddyn nhw ddatblygu ar yr angerdd wedyn. Rydyn ni’n gobeithio y bydd yn ddechrau ar daith greadigol i rai ohonyn nhw gyda ni.





# EIN CYNYRCHIADAU

**Er nad oedden ni'n gallu perfformio ar ein llwyfannau eleni, fe wnaethon ni barhau i gefnogi artistiaid a gwneuthurwyr theatr i gynhyrchu a chyflwyno perfformiadau ar-lein – yn ogystal â dechrau gwaith ar gynyrchiadau llwyfan newydd.**

Roedden ni wrth ein boddau bod ein cyd-gynhyrchiad llwyddiannus o The Beauty Parade (Mawrth 2020) wedi'i enwi'n un o 'Oreuon 2020' gan y Wales Arts Review.

Ym mis Tachwedd, fe estynnon ni groeso cynnes i Frân Wen, a chael y pleser o ddatblygu cyd-gynhyrchiad Cymraeg newydd gyda nhw.

Fe wnaethon ni hefyd sicrhau bod gofodau o gwmpas yr adeilad ar gael i artistiaid oedd am greu eu gwaith eu hunain. Daeth hyd yn oed ein maes parcio yn ofod creadigol, gyda'r dawnsiwr a'r coreograffydd Matteo Marfoglia yn creu ac yn ymarfer ei ddarn dau gymeriad diweddaraf, Car Park Choreography.





# GŴYL 2021

**Dros un penwythnos ym mis Mawrth, penderfynodd pedair o wyliau mwyaf poblogaidd Cymru – ein gŵyl ni ein hunain Gŵyl y Llais, FOCUS Cymru, Lleisiau Eraill Aberteifi a Gŵyl Gomedi Aberystwyth – ddod ynghyd i greu Gŵyl 2021; gŵyl ar-lein rad ac am ddim oedd yn llawn cerddoriaeth a chomedi fyth-gofiadwy ac yn croesawu deialog ac amrywiaeth.**

Roedd yr Ŵyl wedi'i chreu dros sawl mis ledled Cymru a'r byd o fewn cyfyngiadau Covid, ac roedd ar gael i'w gwylio'n fyw ledled gwledydd Prydain ar wefan BBC Cymru.

Roedd Gŵyl 2021 yn ddathliad o artistiaid sydd wedi ennill eu plwyf ac yn gyfle i ddarganfod y newydd a'r eclectig, o Gymru a'r tu hwnt. Roedd arlwy Gŵyl y Llais yn cynnwys Cate Le Bon mewn cydweithrediad â Gruff Rhys; perfformiad unigryw unwaith ac am byth gan Brett Anderson, Charles Hazlewood a'r Baragerddorfa; a pherfformiadau wedi'u curadu gan y cwmni dawns Jukebox Collective.

# CYNYRCHIADAU AR-LEIN

**Wrth i ni ganfod ffyrdd newydd o weithio, roedden ni'n falch iawn o gael cyflwyno cynyrchiadau ar-lein gan ein cyfeillion ledled gwledydd Prydain, gan gryfhau ein perthnasoedd yn y sector ehangach a pharhau i gynnig cynnwys newydd ffres o'r ansawdd gorau i'n cynulleidfaoedd ein hunain.**

Ym mis Medi, bu Dante or Die yn ffrydio podlediad fideo trochol newydd o User Not Found a gynhaliwyd mewn siop goffi gyfagos ar Stryd Bute yn 2019.

Yn ddiweddarach yn yr un mis, cynhyrchodd y pwerdy dawns gyfoes Rambert berfformiad ffrwd fyw unigryw o Draw from Within, a grëwyd gyda'r coreograffydd a'r gwneuthurwr ffilmiau blaenllaw, Wim Vandekeybus. Cafodd stiwdios Rambert yn South Bank Llundain eu gweddnewid yn gyfres o fydoedd theatraidd bywiog a chyferbyniol; ambell fyd o freuddwydion, ambell hunllef ac ambell fyd â'i wyneb i waered.

Ein sioe Nadolig i deuluoedd oedd Raymond Briggs' Father Christmas, sioe hudolus a gafodd ei chynhyrchu gan Lyric Hammersmith a'i haddasu gan Pins and Needles mewn partneriaeth ddigidol gyda Chanolfan Mileniwm Cymru. Roedd cynulleidfaoedd yn gwylio o gysur eu cartrefi eu hunain wrth i Siôn Corn pwdlyd ond hoffus Briggs baratoi ar gyfer ei ddiwrnod prysuraf o'r flwyddyn. Roedd y perfformiad ar gael am ddim i ysgolion a grwpiau cymunedol diolch i gefnogaeth gan ein haelodau corfforaethol.



# LLAIS AR GYFER EIN SECTOR




Cafodd y pandemig effaith drychinebus ar y diwydiant celfyddydol, a daeth y sector ynghyd yn gyflym iawn i ymgyrchu ac i ymladd er mwyn goroesi. O'r diwrnod y bu'n rhaid cau ein drysau ymlaen, fe fuon ni'n codi'n llais ar ran y celfyddydau yng Nghymru ar sawl llwyfan drwy gydol y flwyddyn, ac fe fuon ni'n llwyddiannus yn lobïo Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain am ragor o gymorth.

Bu ein Rheolwr Gyfarwyddwr, Mathew Milsom, yn cwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a phedwar Aelod Seneddol Caerdydd. Aeth Stephen Doughty AS ymlaen i godi ein hachos yn Nhŷ'r Cyffredin, a thynnodd Kevin Brennan AS sylw at ein hanawsterau yng nghyfarfod un o bwyllgorau dethol Senedd San Steffan ym mis Mehefin.

Er mwyn dangos ein cefnogaeth i'r gweithwyr llawrydd anhygoel y mae'r sector celfyddydol yn dibynnu arnyn nhw, cafodd yr arysgrif adnabyddus ar flaen yr adeilad ei oleuo ar 6 Gorffennaf fel rhan o ymgyrch #GOLEUONGOCH, ac ym mis Tachwedd fe ymunon ni â sefydliadau celfyddydol mawr eraill i greu ac i noddi Tasglu Llawrydd Cymru.

Fe aethon ni ati hefyd i godi'n llais yn y wasg, gyda'r Cyfarwyddwr Artistig Graeme Farrow a'r Ymddiriedolwr Dr Carol Bell yn cael eu cyfweld ar bynciau fel pasys Covid a'r angen am gyllid argyfwng ar gyfer sefydliadau celfyddydol.

# CARTREF I BAWB

**Fe wnaeth y digwyddiadau cythryblus eleni i ni ystyried, fel llawer yn y celfyddydau, sut a pham nad yw ein sefydliad yn cynrychioli nac yn adlewyrchu Cymru fel y dylai.**

Rydyn ni'n ymdrechu i adrodd straeon ac i hyrwyddo lleisiau amrywiol, ar ein llwyfannau ac ym mhob rhan o'n gwaith a'n diwylliant. Rydyn ni'n siarad am bwysigrwydd y celfyddydau bob dydd, ond mae'n rhaid i ni wneud mwy i annog gwahanol bobl o ystod o gefndiroedd i ymuno â ni.

Ym mis Hydref, fe gyhoeddon ni ein Cynllun Gweithredu Amrywiaeth, sy'n amlinellu'r camau rydyn ni'n eu cymryd i wneud ein rhaglen, ein gweithle a'n hadeilad yn fwy cynhwysol a chynrychioliadol.

Fe wnaethon ni hefyd ymuno â sefydliadau celfyddydol eraill i ffurfio Tasglu Cymru, Diwylliant a Hil, gan ganolbwyntio ar wella atebolrwydd a chyfleoedd i bobl Dduon, Asiaidd ac ethnig amrywiol ym maes y celfyddydau.

Dim ond dechrau ein taith yw hyn. Byddwn ni'n parhau â'n gwaith i ysgogi dealltwriaeth o'r angen am newid ar bob lefel.





# CROESO CYNNES CYMRAEG

**Fel y ganolfan gelfyddydau genedlaethol, mae'r iaith a'r diwylliant Cymraeg wrth wraidd yr hyn rydyn ni'n ei wneud.**

Yn ystod ein cyfnod ar gau, fe wnaethon ni barhau i ddarparu profiad dwyieithog rhagorol i'n holl gwsmeriaid, ymwelwyr a staff. Ym mis Mawrth 2021, roedd 3,999 o'n cwsmeriaid wedi gosod y Gymraeg fel eu dewis iaith ar gyfer ein negeseuon, ac fe gadwon ni mewn cysylltiad â 1,951 arall yn ddwyieithog.

Mae ein gweithwyr yn cael cynnig cyrsiau Cymraeg rhad ac am ddim ar lefelau amrywiol, ac erbyn diwedd y flwyddyn, roedd gan 44% o'n staff ryw lefel o Gymraeg.

Tra buon ni ar gau, fe wnaethon ni'n siŵr ein bod yn atgoffa'r staff o'n hymrwymiadau gwasanaeth cwsmeriaid dwyieithog, ac fe roeson ni gipolwg i Gomisiynydd y Gymraeg ar effaith y pandemig ar ein darpariaeth Gymraeg.

Mae galluogi artistiaid i greu naratifau newydd ac adrodd eu stori yn eu hiaith eu hunain yn hanfodol i fywyd diwylliannol Cymru ac yn greiddiol i'n gweledigaeth artistig. Tra bu'n llwyfannau'n dywyll, fe fuon ni'n gweithio y tu ôl i'r llenni er mwyn datblygu Anthem, ein comedi gerddorol newydd Gymraeg fydd yn agor ym mis Mawrth 2022.

**RYDYN NI'N HYNOD FALCH BOD EIN CAMPWS 7.5 ERW YN GARTREF I WYTH SEFYDLIAD DIWYLLIANNOL ARALL, AC MAE POB UN YN CYFRANNU'N FAWR AT EFFAITH ARTISTIG, HYGYRCHEDD A BYWIOGRWYDD YR ADEILAD. CYFLOGIR DROS 1,000 O BOBL AR EIN SAFLE AR DRAWS YR HOLL SEFYDLIADAU.**

# EIN CAMPWS DIWYLLIANNOL



Mae **OPERA CENEDLAETHOL CYMRU** yn llwyfannu opera graddfa fawr a chyngherddau ac yn cynnal gwaith allgymorth ledled Cymru, mewn dinasoedd mawr yn Lloegr ac yn rhyngwladol. Maent yn darparu profiadau ysbrydoledig i bobl o bob oedran a chefndir yn ein cymunedau, yn meithrin doniau operatig ifanc ac yn dangos i genedlaethau'r dyfodol bod opera'n ffurf ar gelf sy'n werth chweil, yn berthnasol ac yn addas i bawb.



**LLENYDDIAETH CYMRU** yw'r cwmni cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth. Ei weledigaeth yw Cymru lle mae llenyddiaeth yn grymuso, yn gwella ac yn bywiogi bywydau, ac mae'n gweithio i ysbrydoli cymunedau, datblygu awduron a dathlu diwylliant llenyddol Cymru. Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog ledled Cymru.




Cenhadaeth **TŶ CERDD** yw hyrwyddo a dathlu cerddoriaeth Cymru – ac mae hynny'n golygu unrhyw gerddoriaeth sy'n cael ei chreu yng Nghymru. Maent yn gweithio gyda phroffesiynolion ac eraill, crewyr cerddoriaeth a pherfformwyr, i ddod â cherddoriaeth Cymru i gynulleidfaoedd gartref a thramor.



Mae **CWMNI DAWNS CENEDLAETHOL CYMRU** yn creu dawns gyda phob math o bobl ym mhob math o lefydd. Drwy arloesi a dychmygu, maen nhw'n ehangu sbectrwm yr hyn all dawns fod fel y gall cynulleidfaoedd greu, gwylio, cymryd rhan a dysgu am ddawns yng Nghymru ac ar draws y byd.

Llun WNO: The Marriage of Figaro WNO. Soraya Mafi (Susanna) ac Anita Watson (Contessa d'Almaviva). Llun gan Richard Hubert Smith



Mae **HIJINX** yn un o brif gwmnïau theatr gynhwysol Ewrop. Mae'n creu perfformiadau rhagorol gydag artistiaid ag anableddau dysgu a/neu artistiaid awtistig ar y llwyfan ac ar y sgrin, i Gymru ac i'r byd.



Mudiad ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol yw **URDD GOBAITH CYMRU**, sydd â thros 55,000 o aelodau rhwng wyth a 25 oed. Maen nhw'n darparu ystod o brofiadau i blant a phobl ifanc Cymru gan gynnwys cyfleoedd diwylliannol, preswyl a chwaraeon, a'r cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg.



**CERDDORFA GENEDLAETHOL GYMREIG Y BBC**

Ers dros 90 mlynedd, mae Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn chwarae rhan annatod yn nhirwedd diwylliannol Cymru, gyda'i rôl ddeuol unigryw fel cerddorfa ddarlledu a cherddorfa symffoni genedlaethol.



Elusen arloesol yw **TOUCH TRUST** sy'n darparu sesiynau symudiad ac amlsynhwyraidd cynhwysol a chreadigol i oedolion a phlant sydd ag amrywiaeth o anghenion amlsynhwyraidd, anableddau dysgu ac anhwylderau yn y sbectrwm awtistig.

# 3, 2, 1... TANIO!

**Roedd cau ein drysau i berfformiadau cyhoeddus yn gyfle i ni gefnogi cyfryngau cenedlaethol Cymru, drwy ganiatáu i griwiau teledu ffilmio rhaglenni poblogaidd yn ein hadeilad eiconig. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd Doctor Who a Keeping Faith y BBC, a Havoc Netflix, gyda Tom Hardy a Forest Whittaker yn serennu.**



Ym mis Tachwedd, darlledwyd rhaglen materion cyfoes S4C, Pawb a'i Farn – un o benodau cyntaf Betsan Powys fel cyflwynydd y rhaglen – yn fyw o'r Glanfa. Ym mis Mawrth, darlledwyd cystadleuaeth eiconig Cân i Gymru – un o gonglfeini arlwy blynyddol S4C – yn fyw o Theatr Donald Gordon, gan ddenu ei chynulleidfa fwyaf ers pymtheg mlynedd.

**"MAE CÂN I GYMRU YN RHAN BWYSIG O AMSERLEN S4C BOB BLWYDDYN AC MAE CAEL ARDDANGOS Y GYSTADLEUAETH AR LWYFAN ENWOG THEATR DONALD GORDON YN ARBENNIG IAWN – YN SICR DYMA'R DDEUAWD BERFFAITH!"**
**ELEN RHYS, COMISIYNYDD ADLONIANT S4C**

# DIOLCH

Roedd colli £20m o'n refeniw eleni'n unig yn golled mor fawr fel ei bod yn bygwth ein bodolaeth. Sicrhaodd cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru nid yn unig y gallen ni gynnal a chadw ein hadeilad a chadw cymaint o staff â phosib, ond hefyd baratoi i ailagor yn ddiogel pan ddeuai'r amser. Heb y gefnogaeth yma, fydden ni ddim wedi gallu goroesi.

Fe gawson ni ddau grant o'r Gronfa Sefydlogi – £50,000 gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai a £175,000 gan Gyngor Celfyddydau Cymru ym mis Mehefin – i dalu costau busnes hanfodol wrth i'r pandemig gydio.

Ym mis Mehefin, roedden ni'n ddiolchgar iawn am £3.9m o Gronfa Adferiad Diwylliannol Covid Cyngor Celfyddydau Cymru. Roedd hyn yn cynnwys £3.4m o gyllid refeniw i ddiogelu swyddi staff hanfodol ac i ailgodi'r sefydliad. Roedd hefyd yn caniatáu i ni weithio gyda llawryddion creadigol ac artistiaid unigol, a arweiniodd at lansio ein rhaglen Cymdeithion Creadigol gyntaf erioed. Fe wnaeth y cyllid cyfalaf oedd yn weddill helpu i wneud ein hadeilad yn barod ar gyfer ailagor – gan gynnwys gosod WiFi yn ein mannau cyhoeddus i'n galluogi i awtomeiddio pryniannau a lleihau cyswllt, gosod system pwynt gwerthu newydd, gosod pwyntiau gwirio tymheredd, a 36 sedd ychwanegol yn Theatr Donald Gordon i'w cynnig i grwpiau cymunedol.

Diolch o galon i'n rhoddwyr unigol, ymddiriedolaethau a sefydliadau, aelodau a chefnogwyr corfforaethol; hebddoch chi, fydden ni ddim wedi gallu parhau â'n gwaith gyda phobl ifanc a chymunedau ar adeg pan oedd arnyn nhw ein hangen fwyaf.

Roedd cefnogaeth barhaus gan Sefydliad Moondance, Sefydliad Garfield Weston, Sefydliad Paul Hamlyn, Ymddiriedolaeth Elusennol Simon Gibson, Sefydliad John Thaw ac elusen Clive a Sylvia Richards yn hanfodol i'n gwaith cymunedol a dysgu oedd yn parhau.

Ochr yn ochr â chymorth gan Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru a'r British Council, fe wnaeth grantiau ychwanegol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r Loteri Genedlaethol ein galluogi i greu Gŵyl 2021.

Fe barhaodd ein haelodau unigol a chorfforaethol yn hynod gefnogol, a chytunodd Admiral i ddod yn rhan o'r grŵp yma eleni.

Fe wnaeth cefnogaeth unigolion ein galluogi i barhau i ddatblygu ein cynyrchiadau ein hunain; am hynny, rydyn ni'n hynod ddiolchgar i Bob a Lindsay Clark, i Peter a Jan Swinburn ac i Dr Carol Bell.

Fe wnaeth pob rhodd wahaniaeth gwirioneddol gan newid bywydau yng Nghymru er gwell. I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut i ymuno â'r grŵp yma: wmc.org.uk/ymuno-a-rhoi

# DIOLCH I'N CEFNOGWYR

**CEFNOGWYR CORFFORAETHOL**

**NODDWR SEFYDLU**
Syr Donald Gordon

**LLYWYDD OES**
Yr Arglwydd Rowe-Beddoe DL

**CYLCH Y CADEIRYDD**
Dr Carol Bell
Bob + Lindsay Clark
Y Fonesig Vivien Duffield DBE
Diane Briere de l'Isle-Engelhardt OBE
Henry Engelhardt CBE
Dyfrig + Heather John
Alan + Maggie Peterson
Yr Arglwydd a'r Arglwyddes Rowe-Beddoe
Mr David Stevens CBE + Mrs Heather Stevens CBE
Mr Peter + Mrs Janet Swinburn
Y Teulu Turner

**YMDDIRIEDOLAETHAU A SEFYDLIADAU**
Cyngor Celfyddydau Cymru
Elusen Clive a Sylvia Richards
Llywodraeth Cymru
Persimmon Homes
Sefydliad Andrew Lloyd Webber
Sefydliad Garfield Weston
Sefydliad Moondance
Sefydliad Paul Hamlyn
Sefydliad Rayne
Sefydliad Waterloo
Sefydliad Wolfson
Ymddiriedolaeth Elusennol Gibbs
Ymddiriedolaeth Elusennol Mary Homfray
Ymddiriedolaeth Elusennol Simon Gibson
Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru
Ymddiriedolaeth Thistle

**CEFNOGAETH ARBENNIG**
David Morgan
David Seligman OBE ac er cof am Philippa Seligman
Peter + Babs Thomas

**AELODAU PARTNER AWEN**
Ms Ayesha Al-Sabah
Mrs Diana Andrews
Dean Barnard
Mary + David Beynon
Mrs Jacqueline Bird
Rosina Bridgeman
Mr Robert Cross
Mrs Janet Davies
Mr Christian Du Cann
Mr P Ellis + Mrs V Wood
Sigi Evans
Russell Harris C.F. + Mrs Nicola Harris
Mr + Mrs Granville + Sheila John
Mr + Mrs William R Jones
Mr Hopkin Joseph
Mrs Francesca Kitchen
Dr Phillip Lane
Yr Athro Michael Levi
Dr + Mrs Richard Logan
Mr + Mrs Michael McGrane
David Noble + Helen Such
Dr M L Nussbaum
Georgina + Len Phillips
Julienne Damaris Rowlands
Claire + Simon Wyatt
1 Dienw

Diolch hefyd i'n haelodau Partner, Ffrind+ a Ffrind ac i roddwyr eraill am eu cefnogaeth.